



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Mehefin 2024 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 June 2024 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Teresa Harries (**gadawodd y cyfarfod am**/left the meeting at 8.40), Richard Davies, John Adams-Lewis (**gadawodd y cyfarfod am**/left the meeting at 8.30), Philippa Noble, Clive Davies (**ymunwyd am**/joined 18.30), Nick Bolton, Stephen Greenhalgh (**gadawodd y cyfarfod am**/left the meeting at 8.00), Mike Lewis (Tivyside) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Methodd y Cyng Trystan Phillips, Elaine Evans a Llinos Haf-Jones (Cyfieithydd) ag ymuno â'r cyfarfod o bell oherwydd anawsterau technegol gyda'r sain yn ystafell gyfarfod y castell.

Cllrs Trystan Phillips, Elaine Evans and Llinos Haf-Jones (Translator) failed to join the meeting remotely due to technical difficulties with the sound in the meeting room at the castle.

Ymunodd Rose Barter, Terry Barter a Lesley Parry (preswylwyr Netpool) â'r cyfarfod i leisio'u pryderon ynghylch y llwybr mynediad arfaethedig i safle adeiladu gwaith carthffosiaeth Dŵr Cymru. (Gan ddefnyddio'r 15 munud cyn i gyfarfod y cyngor ddechrau). Datgasant eu llwybr ffafriedig, ac yn eu barn hwy fwy diogel a llwybr llai niweidiol i'r cynghorwyr. Roeddent yn hynod bryderus nad oedd ymchwiliad digonol wedi ei wneud gan Dŵr Cymru i'r llwybr amgen. Cytunodd y Cynghorwyr i gyfarfod â Mrs Barter i gerdded y llwybrau y noson nesaf i wella eu dealltwriaeth o'r sefyllfa.

Rose Barter, Terry Barter and Lesley Parry (Netpool residents) joined the meeting to voice their concerns regarding the proposed access route to the Welsh Water sewage works building site. (Utilising the 15 minutes prior to the council meeting starting). They stated their preferred, and in their opinion safer and less damaging route clearly to the councillors. They were extremely concerned that there had not been sufficient investigation by Welsh Water to the alternative route. Councillors agreed to meet with Mrs Barter to walk the routes the next evening to increase their understanding of the situation.

Cyflwyniad gan Caroline Wilson, y Ddraig Werdd a Emma Bingham, Swyddog Datblygu, Cymdeithas Cludiant Cymunedol.

Mae Bws Draig Werdd (Cymdeithas Trafnidiaeth Wledig y Preseli) gyda chefnogaeth y Gymdeithas Cludiant Cymunedol wedi llwyddo i gael Grant Arian y Loteri i brynu cerbydau hygyrch i'w defnyddio ar gyfer trigolion Aberteifi a'r cyffiniau. Bydd prosiect Cysylltiadau Llesiant y Ddraig Werdd yn bennaf yn helpu pobl i gael mynediad at gludiant fel y gallant fynychu apwyntiadau yn y CIGA a meddygfeydd eraill yn yr ardal, galluogi pobl i ymweld ag anwyliaid/ffrindiau mewn cartrefi gofal a helpu preswylwyr y cartrefi gofal hynny i gael mynediad at apwyntiadau iechyd, apwyntiadau ysbyty ac ati yn haws. Mae'r prosiect hefyd yn galluogi pobl i gael mynediad at unrhyw beth sy'n ymwneud â'u Lles a all fod bron yn unrhyw beth. Mae'r Ddraig Werdd ar hyn o bryd yn chwilio am yrwyr gwirfoddol i gefnogi'r cynllun, mae'n rhan amser ac apeliodd ar y cynghorwyr i ystyried y rôl, a hefyd i ledaenu'r gair yn y gymuned gan ofyn i bobl wirfoddoli eu hamser i wneud yn siŵr gellir defnyddio'r gwasanaeth hwn i'w gapasiti. Yr hyn nad ydym am ei wneud yw gorfod dweud na wrth bobl pan fyddant yn ein

ffonio gyda chais am gymorth ar gyfer taith, felly rydym yn anelu at gael banc o yrwyr sy'n dweud wrthym pryd y maent ar gael fel y gall gwasanaeth cael ei ddarparu yn dda. Bydd yr holl hyfforddiant, DBS a threuliau yn cael eu talu o'r cyllid a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol. Bydd lansiad yn digwydd yn fuan unwaith y bydd ychydig mwy o yrwyr yn cofrestru. Mae'r Ddraig Werdd wedi bod yn gweithredu gwasanaeth yn Aberteifi ers 2007 ac mae'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dweud wrthym beth yw ei fywyd.

Presentation by Caroline Wilson from Green Dragon and Emma Bingham, Development Officer, Community Transport Association.

Green Dragon Bus (Preseli Rural Transport Association) with the support of the Community Transport Association have been successful in obtaining a Lottery Funded Grant to purchase accessible vehicles to be used for the residents of Cardigan and the surrounding area. The Green Dragon Wellbeing Connections project will primarily help people access transport so they can attend appointments at the CICC and other GP surgeries in the area, enable people to visit loved ones/friends in care homes and help the residents of those care homes access health appointments, hospital appointments etc more easily. The project also enables people to access anything that is to do with their Wellbeing which can be almost anything. Green Dragon is currently looking for volunteer drivers to support the scheme, it is very much on a part time basis and appealed to the councillors to consider the role, and also to spread the word in the community asking people to volunteer their time to make sure this service can be used to its capacity. What we don't want to do is have to say no to people when they call us with a request for help for a journey so we are aiming to have a bank of drivers who tell us when they are available so that a good service can be provided. All training, an enhanced DBS and expenses will be paid from the funding gained from the National Lottery. A launch will happen soon once a few more drivers sign up. Green Dragon have been operating a service in Cardigan since 2007 and those that use the service tell us what a life line it is.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, bawb i'w chyfarfod cyntaf fel cadeirydd Cyngor Tref Aberteifi. Mewn ymateb i'r cynnig a wnaed gan Grŵp Ceredigion Ymgyrch Cydsafiad Palestina yn ein cyfarfod fis diwethaf, cyhoeddodd y maer y datganiad a ganlyn. "Ar ran Cyngor Tref Aberteifi a thrigolion Aberteifi, hoffwn ddatgan cydymdeimlad, cefnogaeth ac undod y dref hon i bawb sydd wedi dioddef ac sy'n dioddef yn Israel a'r Tiriogaethau Meddiannu Palesteinaidd. Mae hon yn sefyllfa erchyll; rydym wedi ein syfrdanu gan bob ac unrhyw weithredoedd o drais ac mae'r gwrthdaro parhaus a cholli miloedd o fywydau diniwed yn peri gofid mawr inni. Yn unol â'r Cenhedloedd Unedig, rydym yn annog arweinwyr yn Israel a Phalestina i wneud popeth o fewn eu pwerau i osgoi colli rhagor o fywyd diniwed. Galwn am heddwch; galwn am ateb diplomyddol ac rydym yn galw am roi'r gorau i'r trais a'r erchyllterau yr ymwelwyd â nhw ar gynifer o gymunedau."

Aeth y Maer ymlaen i longyfarch, ar ran y cynghorwyr, Raphael James, Ysgol Uwchradd Aberteifi, am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth unawd piano Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i flwyddyn 10 ac o dan 19 oed; Emma Davies-Warhurst blwyddyn 10 a enillodd y gystadleuaeth Artist Unigol/Band blynyddoedd 7-13; Lleucu Haf Thomas a ddaeth yn ail yn yr ensemble offerynnol, blwyddyn 10 a dan 19 oed. Enillodd Lleucu hefyd 11 medal unigol ar draws y cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg, cyfansoddi cerddoriaeth, Eisteddfod T a thrin gwallt, gan arwain at gyfanswm o 6 medal aur, 5 arian ac 1 efydd. Yn y byd chwaraeon llongyfarchiadau i Jem Evans blwyddyn 11 a Summer Evans Blwyddyn 10 am dderbyn eu Capiâu Cymreig cyntaf am chwarae i dîm pêl-droed dan 16 Ysgolion Cymru. Yn olaf, llongyfarchiadau diffuant i glwb Ffermwyr Ifanc Penparc am ennill Rali CFFI Ceredigion ddydd Sadwrn diwethaf am y tro cyntaf ers 40 mlynedd a hefyd i CFFI Abergwaun am ennill rali Sir Benfro, lle mae consort y Maer presennol yn Gadeirydd.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed everyone to her first meeting as chair of Cardigan Town Council. In response to the proposal made by The Palestinian Solidarity Campaign Ceredigion Group in our meeting last month, the mayor announced the following statement. "On behalf of Cardigan Town Council and residents of Cardigan, I would like to express this town's collective condolences, support, and solidarity to everyone that has suffered and is suffering in Israel and the Palestinian Occupied Territories. This is a horrible situation; we are appalled by all and any acts of violence and we are deeply distressed by the continued conflict and the loss of thousands of innocent lives. In line with the United Nations, we are urging leaders in Israel and Palestine to do everything within their powers to avoid further loss of innocent life. We call for peace; we call for a diplomatic solution and we call for the cessation of the violence and horrors visited on so many communities."

The Mayor went on to congratulate, on behalf of the councillors, Raphael James, Ysgol Uwchradd Aberteifi, for achieving first place in the piano solo competition at the National Urdd Eisteddfod for year 10 and below 19 years old; Emma Davies-Warhurst year 10 who won the Individual Artist/Band competition for years 7-13; Lleucu Haf Thomas who came second in the instrumental ensemble, year 10 and under 19 years old. Lleucu also achieved 11 individual medals across the Art, Design and Technology competitions, composing music, Eisteddfod T and hairdressing, resulting in a total of 6 golds, 5 silvers and 1 bronze medal. In the sporting world congratulations to Jem Evans year 11 and Summer Evans Year 10 for receiving their first Welsh Caps for playing for Welsh Schools U16 football team. Lastly, sincere congratulations to Penparc Young Farmers club for winning the Ceredigion YFC Rally last Saturday for the first time in 40 years and also to Fishguard YFC for winning the Pembrokeshire rally, where the current Mayor's consort is the Chairperson.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Cyng Richard Jones, ymrwymadau gwaith; David a Siân Maehrlein, ar gwyliau.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Richard Jones, work commitments; David and Siân Maehrlein, on holiday.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

<i>Y Cyng / Cllr Richard Davies: Eitem 8 c)</i> <i>Gohebiaeth rhif 66 / Item 8 c)</i> Correspondence number 66.	<i>Bydd gosodiadau arfaethedig yn creu gwaith a fydd o fudd i'r Cyng drwy ei gyflog Bachan Deche / Proposed installations will create work that will benefit the Cllr through his handyman salary.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Philippa Noble: Eitem 8 c)</i> <i>Gohebiaeth rhif 66 / Item 8 c)</i> Correspondence number 66.	<i>Mae'r Cyng yn ymwneud â'r Cardished sy'n cyfrannu at y prosiect hwn / The Cllr is involved</i>

	with the Cardished who are contributing to this project.
<i>Y Cyng / Cllr Teresa Harries: Eitem 8 c)</i> <i>Gohebiaaeth rhif 72 / Item 8 c)</i> Correspondence number 72.	Mae'r Cyng yn aelod o'r côr yn gofyn am gael canu ar y cei / The Cllr is a member of the choir asking to sing on the quay.
<i>Y Cyng / Cllr Richard Davies: Eitem 8 c)</i> <i>Gohebiaaeth rhif 73 / Item 8 c)</i> Correspondence number 73.	Bydd y cais hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y Cyng drwy ei gyflog Bachan Deche / This request will directly affect the Cllr through his handy man salary.

4. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Mai 2024.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd Nos Fawrth 7 Mai yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday, 7 May 2024.

The Councillors proposed that the Tuesday, 7 May council meetings minutes be recorded as correct.

5. **Adroddiad y Clerc**

I dderbyn adroddiad gan Clerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2024.

- Mae'r cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant UKSPF gan Cynnal y Cardi i brynu offer cau ffyrdd i fodloni'r safonau gofynnol a bennwyd gan CSC wrth wneud cais i gau ffyrdd. Cyfanswm y grant yw £7,038.60 gydag arian cyfatebol o £1,759.65 gan y cyngor. Bydd y grant yn galluogi prynu stoc fawr o arwyddion ffyrdd, 20 radio a chwrs hyfforddi a gymeradwyir gan LANTRA "Cau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau cymunedol" ar gyfer 12 o wirfoddolwyr.
- Rhoddwyd hawl i'r Clerc i gymryd 5 diwrnod o wyliau blynyddol rhwng dydd Llun 17 Mehefin a dydd Gwener 21 Mehefin.
- Cynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol y Brenin Siôr V ar ddydd Llun 24 Mehefin – bydd yr amser, y lleoliad a'r Agenda yn cael eu hanfon at aelodau'r pwyllgor wythnos cyn y cyfarfod.
- Rhoddwyd canitâd i'r "Lleisiau Eraill" i godi baneri pyst lamp i hysbysebu eu digwyddiad eleni. Bydd y baneri'n cael eu codi tua 8 Medi (pan fydd baneri'r Wyl Grefft yn cael eu tynnu) ac yna'n cael eu tynnu i lawr yn ystod mis Tachwedd.
- Bydd cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf yn cael ei ohirio am wythnos oherwydd rheolau'r cyfnod cyn etholiad. Bydd hyn yn caniatáu i'r cyngor gyfarfod ar ôl dyddiad yr etholiad. Cynhelir y cyfarfod am 6.00pm dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2024.

Clerc's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 7 May 2024.

- The council has been successful in their bid for a UKSPF grant from Cynnal y Cardi to purchase road closure equipment to meet the required standards dictated by CCC when applying for road closures. The grant total is £7,038.60 with match funding of £1,759.65 from the council. The grant will enable the purchase of a large stock of road signs, 20 radios and a LANTRA approved training course "Road closures for community events" for 12 volunteers.
- The Clerk received approval to take 5 days of annual holiday between Monday 17 June and Friday 21 June.
- The Advisory Committee meeting for King George V will be held on Monday 24 June – the time, location and Agenda will be forwarded to the committee members a week before the meeting.
- Permission was granted to the "Other Voices" to erect lamp post banners to advertise their event this year. The banners will be erected around the 8 September (when the Craft Festival banners are removed) and then taken down during November.
- The July Council meeting will be postponed by one week due to the rules regarding the pre-

election period. This will allow the council to meet after the election date. The meeting will be at 6.00pm Tuesday, 9 July 2024.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahrad.

Ni nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A240304	Laurence Gascoigne Walden Arts, The Old Sail Loft, Drawbridge Warehouse Middle Mwldan, Aberteifi, SA43 1HW.	<i>Caniatâd adeilad rhestredig i greu storfeydd ar gyfer offer a chyflenwadau celf, gyda'r diben o ryddhau gofod cylchreddeg yn y prif adeilad ar gyfer cyrsiau celf a gwneud printiau / Listed building consent to create store rooms for art equipment and supplies, with the purpose to free up circulation space in the main building for art and printmaking courses.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn caniatáu'r cais hwn os gosodir digon o sgrin i ddiogelu preifatrwydd yr eiddo drws nesaf o'r ffenestr ystafell ymolchi arfaethedig ar yr edrychiad ochr / Councillors approve this application if sufficient screening is installed to protect the privacy of the property next door from the proposed bathroom window on the side elevation.</i>

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
03/06/24	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Mehefin/June)</i> <i>Band Lydan (Mehefin) / Broadband (June)</i>	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
05/06/24	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mai/May)</i>	A5	BACS	£1470.29(0.00)
05/06/24	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Ebrill 2024 - 5 Mai 2024 / PAYE payment for 6 April 2024 – 5 May 2024</i>	A16	BACS	£152.59(0.00)
05/06/24	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mai/May)</i>	A19	BACS	£600.00(0.00)
15/05/24	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	BACS	£142.05(0.00)
05/06/24	Mr Roy Evans <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr / Mace bearer's fee</i>	A6	BACS	£140.00(0.00)

05/06/24	Y Cyng / Cllr Olwen Davies: <i>Lwfans y Maer / Mayor's allowance (50%), 2024-25.</i>	A1	BACS	£1,600(0.00)
05/06/24	Y Cyng / Cllr Olwen Davies: <i>Rhoddion y Maer / Mayor's Donations, 2024-25.</i>	D1	BACS	£620.00(0.00)
05/06/24	Mrs Julie John: <i>Ffotograffydd / Photographer</i>	A6	BACS	£225.00(0.00)
23/05/24	Trywydd - <i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	BACS	£108.00(18.00)
07/05/24	PEAC Solutions – Lease rental photocopier	A7	D/D	£121.20(20.20)
07/05/24	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
14/05/24	WHSmith – <i>Deunydd Swyddfa / Office materials</i>	A17	BACS	£42.94(0.00)
28/05/24	<i>Ffi Ymchwilydd mewnol / Internal Auditor Fee</i>	A13	BACS	£350.00(0.00)
28/05/24	Parc Piliau – Hire of JCB Telehandler and driver	B1	BACS	£252.00(42.00)
05/06/24	Zoom – <i>Ffi flynyddol / Annual fee</i>	A20	BACS	£539.98(89.98)
05/06/24	<i>Rhoddion taith Broude / Gifts for Brioude trip</i>	B6	BACS	£88.90(0.00)
31/05/24	Radio Trader 20 x Hytera BP565 UHF	B8	BACS	£3648.00(608.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/05/2024 Lloyds Bank: *Llog / Interest* £78.82

b) Apwyntio Archwilydd Mewnol am y flwyddyn ariannol 2024-25 a cytuno yr "Amodau Gorchwyl".

Cynigiwyd y cynghorwyr benodi Mr Gethin Davies yn Archwilydd Mewnol y cyngor ar gyfer cyfrifon ariannol 2024-25. Mae Mr Davies yn gyfrifydd cymwysedig a chwblhaodd ei archwiliad cyntaf ar gyfer y cyngor eleni. Canmolodd y Clerc ei broffesiynoldeb a'i gymhwysedd yn y rôl. Er ei fod yn ddyn lleol, nid oes ganddo gysylltiad personol ag unrhyw un o'r cynghorwyr na'r cler.

Anfonwyd y Amodau Gorchwyl ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod a phenderfynwyd eu cymeradwyo.

Appointment of an Internal Auditor for the 2024-25 financial year and to approve the "Terms of Reference".

Councillors resolved to appoint Mr Gethin Davies as Internal Auditor of the council for the 2024-25 financial accounts. Mr Davies is a qualified accountant and completed his first audit for the council this year. The Clerk commended his professionalism and competence in the role. Although he is a local man, he has no personal connection to any of the councillors or the clerk.

The Terms of Reference were forwarded to the Councillors prior to the meeting and it was resolved that they be approved.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
45	<i>Clerc Cyngor Cymuned Llandudoch / Clerk to St Dogmaels Community Council: Ymateb Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â chyllid ar gyfer Poppit / Freedom of Information Response with regard to funding for Poppit.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 07/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/05/2024.
46	<i>Colin and Janet - Perchnogion faniau gweryslla / Campervan owners: Cwyn ynghylch polisi parcio / complaint regarding parking policy.</i>	<i>Rheolir polisiâu a thaliadau parcio yn Aberteifi gan CSC / Parking policies and charges in Cardigan are controlled by CCC.</i>
47	<i>Partneriaeth Natur Ceredigion Nature Partnership: Cynllun Grantiau Bach / Small Grants Scheme.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 09/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/05/2024.
48	<i>Rebecca Jones - Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Dŵr Cymru / Community Engagement Manager, Welsh Water: Gwahoddiad i Ddigwyddiad Gwybodaeth / Information Event invite.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 09/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/05/2024.

49	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cyfarfodydd weminar / Webinar events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/05/2024.
50	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Hywel Dda University Health Board: Lansiad Siarter Celfyddydau ac Iechyd / Launch of the Arts and Health Charter.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/05/2024.
51	<i>CSC / CCC: Bwletin Costau Byw Ceredigion / Ceredigion Cost of Living Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/05/2024.
52	Lisa Evans – <i>Swyddog Craffu a Safonau, CSC / Scrutiny and Standards Officer, CCC: Cynrychiolwr Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau CSC / Town and Community Councillor Representative for CCC Ethics and Standards Committee.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/05/2024.
53	<i>Elusen Ambiwylans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance Charity: Diolch am y rhodd / Thank you for the grant.</i>	<i>Nododd y Cynghorwyr y diolch / The Councillors noted the gratitude.</i>
54	<i>Gofal Cancr Aberteifi / Cardigan Cancer Care: Diolch am y rhodd / Thank you for the grant.</i>	<i>Nododd y Cynghorwyr y diolch / The Councillors noted the gratitude.</i>
55	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynhadledd Arfer Arloesol Dydd Mercher 3 Gorffennaf / Innovative Practice Conference on 3 July.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/05/2024.
56	Jane Roche: <i>Gohebiaeth Grŵp Llifogydd Rhos Gloster / Gloster Row Flood Group Correspondence.</i>	<i>Mae'r Cynghorwyr yn gwerthfawrogi'r diweddariad ac yn dymuno cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau / Councillors appreciate the update and wish to be kept informed of any developments.</i>
57	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rachel Carter, Swyddog lleoedd lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature Officer: Weminar lansio adnoddau Newydd / Launch of New Resources Webinar.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/05/2024.
58	Cyng/Cllr Elaine Evans: <i>Ymateb gan Paul Edwards CSC i gŵyn biniau sbwriel stryd / Response to street litter bins complaint from Paul Edwards CCC.</i>	<i>Bydd y Cyng Evans a'r Cyng Richard Davies yn cyfarfod Mr Edwards i drafod y casgliadau penwythnos, maent wedi cael gwybod bod CSC yn gweithio tuag at ddatrys y materion / Cllr Evans and Cllr Richard Davies will meet with Mr Edwards to discuss the weekend collections, they have been made aware that CCC are working towards resolving the issues.</i>
59	Ron Bailey – <i>Cais i gefnogi ymgyrch i wella diogelwch batris lithiwm / Request to support campaign to improve the safety of lithium batteries.</i>	<i>Penderfynodd cynghorwyr anfon llythyr o gefnogaeth i'r ymgyrch hon / Councillors resolved to send a letter of support for this campaign.</i>
60	Rose Barter: <i>Materion diogelwch trafndiaeth yn ymwneud â chynlluniau ar gyfer gwaith carthion newydd Dŵr Cymru / Transport safety issues regarding plans for Welsh Water new sewage plant.</i>	<i>Cytunodd cynghorwyr i gerdded y llwybrau gyda Ms Barter nos yfory cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y mater / Councillors agreed to walk the routes with Ms Barter tomorrow evening before making any decisions on the matter.</i>
61	Lousie O'Neill – <i>Warden y Ficer, Eglwys y Santes Fair / Vicar's Warden, St Marys Church: Diolch am y rhodd / Thank you for the grant.</i>	<i>Nododd y Cynghorwyr y diolch / The Councillors noted the gratitude.</i>
62	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Recriwtion a chadw clerod a syddogion arianol cyfifol / Recruitment and retention of clerks and responsible financial officers.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 21/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/05/2024.
63	Thîm 20 yn ddigon i ni / 20's plenty for us team: <i>Diweddariad a diolch / Update and thank you.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 21/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/05/2024.
64	Jane Roche: <i>Lliniaru llifogydd ac economi tref / Flood alleviation and town economy.</i>	<i>Rhannodd y Clerc y diweddariad ar y prosiect ymgynghorol sy'n cael ei wneud ar faes parcio Netpool</i>

		/ Clerk shared the update for the consultancy project being carried out on Netpool carpark.
65	TrawsCymru: <i>Dim cyfrifoldeb i osod safleoedd bws</i> / No remit to install bus shelters.	Nodwyd / Noted.
66	Rhiannon Ling – <i>Swyddog Datblygu Cymunedol</i> / Community Development Officer, West and Wales Housing: <i>Parc Chwarae Pentop</i> / Pentop Play Area.	<i>Manylion pellach ynglŷn â chefnogaeth gan y trigolion a chynnal a chadw'r parc wedi'i ofyn gan y cynghorwyr</i> / Further details regarding support from the residents and maintenance of park requested by the councillors.
67	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Gweithdai Newydd y Pecynnu Cymorth Hinsawdd</i> / New Climate Toolkit Workshops.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/05/2024.
68	Geraint Roberts – <i>Uwch swyddog datglygu</i> / Senior Development Officer, BARCUD: <i>Tir yn Maeglas</i> / Land at Maesglas.	<i>Mae cynghorwyr wedi gofyn am gyfarfod gyda Geraint Roberts i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n atal y cyngor i gael rheolaeth ar y tir hwn</i> / Councillors have requested a meeting with Geraint Roberts to address any issues preventing the council to gain control of this land.
69	<i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales – Rachel Carter, <i>Swyddog lleoedd lleol ar gyfer Natur</i> / Local Places for Nature Officer: <i>Adnoddau Bioamrywiaeth Newydd</i> / New biodiversity resources.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/05/2024.
70	Elin Jones AS/MS: <i>Ymateb i arolwg o Gynghorau Tref a Chymuned Ceredigion ar effaith y newidiadau i derfynau cyflymder 20mya ar eu cymuned</i> / Response to survey of Ceredigion Town and Community Councils on the effect of the changes to 20mph speed limits on their community.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/05/2024.
71	Diweddariad Bro360 Update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/05/2024.
72	Myfanwy Lewis a Gwenda Bowen – <i>Côr y Cynhaeaf: Canu ar y Cei</i> / Singing on the quay.	<i>Mae cynghorwyr yn cefnogi'r digwyddiad hwn i fynd yn ei flaen, ond nid oes ganddynt awdurdod i ganiatáu cerddoriaeth fyw mewn mannau cyhoeddus</i> / Councillors support this event to go ahead, but have to authority to allow live music in public places.
73	Robert Davies – <i>Clwb Pêl-droed Aberteifi</i> / Cardigan Town Football Club: <i>Cais am ganiatâd i osod cynhwysydd storio gwyrdd 10 troedfedd ar Brenin Siôr V</i> / Request for permission to place a 10ft green storage container on King George V.	<i>Penderfynodd y Cynghorwyr ofyn i'r Pwyllgor Ymgynghorol drafod y cais hwn yn eu cyfarfod ar ddiwedd y mis ac i'w sylwadau gael eu cynnwys ar ein Agenda yn Gorffennaf</i> / Councillors resolved to ask the Advisory Committee to discuss this request in their meeting at the end of the month and for their observations to be included in our July Agenda.
74	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi</i> / Remote training sessions that are taking place in June, July, August and September.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 31/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/05/2024.
75	Jane Roche – <i>Grwp Cymunedol Teifi</i> / Teifi Community Group: <i>Cyfarfod paned a sgwrs</i> / Cuppa and chat meeting.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 31/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/05/2024.
76	Katy Spain – <i>Rheolwr Gwasanaeth Trafnidiaeth CSC</i> / Transport Services Manager CCC: <i>Newidiadau i gwasanaeth bws T5 Traws Cymru</i> / Changes to the Traws Cymru T5 bus service.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 31/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/05/2024.
77	Rose Barter – <i>Dogfennau llwybr a ffefrir ar gyfer prosiect gwella Gwaith Carthion Dŵr Cymru</i> / Preferred route documents for the Welsh Water Sewage Plant improvement project.	<i>Cytunodd cynghorwyr i gerdded y llwybrau gyda Ms Barter nos yfory cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y mater</i> / Councillors agreed to walk the routes with Ms Barter tomorrow evening before making any decisions on the matter.

78	Diweddariad Bro360 Update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/05/2024.
79	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant – bioamrywiaeth cychwynnol a rheoli prosiectau natur / Remote training sessions – initial biodiversity and nature project management.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31/05/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/05/2024.

d) Penodi aelodau'r Is-Bwyllgorau a cytuno Amodau Gorchwyl yr Is-Bwyllgorau. Archwiliwyd y rhestr a chytunwyd gyda'r newidiadau. Caiff copi o'r ffurflen am 2024-25 ei hanfon i'r aelodau maes o law. Penderfynwyd cymeradwyo Amodau Gorchwyl yr Is-Bwyllgorau heb unrhyw newidiadau.

Appoint Sub-Committee members and approve Sub-Committee Terms of Reference. The list was scrutinised by members and revised accordingly. A copy of the 2024-25 list will be forwarded to members in due course. It was resolved to approve the Sub-Committee Terms of Reference with no changes.

e) Adolygu a chymeradwyo'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol. Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol heb unrhyw newidiadau.

Revise and approve the Social Media Policy.

It was resolved to approve the Social Media Policy with no changes.

f) Geiriad tarian Mrs Angela Evans / Wording for town shield for Mrs Angela Evans.

Cyflwynedig gan y Maer i Mrs Angela Evans am ei chyfraniad ffyddlon tuag at waith arbennig Gofal Canser Aberteifi dros 30 mlynedd. Mai 2024.

Presented by the Mayor to Mrs Angela Evans for her faithful contribution to the excellent service of the Cardigan Cancer Care charity over 30 years. May 2024.

g) Costau ar gyfer bathodynau newydd ar gyfer cadwyn y Maer a bathodynau Cyn Faer
Costings for new links for Mayor chain and Past Mayor pendants.

Q0084158 - PAST MAYOR PENDANT & BAR - WELSH

Sterling silver enamelled and gold plated pendant & top bar. Top bar rectangular shape size 30mm x 8mm plus bottom fitting with s/s pin & safety catch on reverse, m/c for enamel one colour. Pendant circular shape size 32mm diameter plus top fitting. Vitreous enamelled one colour. Polished hard gold plated finish. Packed in a presentation case. T.S P970318-04 (now superseded by B170113-16)

Quantity 10 £195.30 each nett

Quantity 5 £223.67 each nett

Penderfynodd cyngorwyr brynu 10 bathodyn / Councillors resolved to purchase 10 pendants.

h) Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd.

Mae'r eitem hon ar yr Agenda wedi'i hanfon ymlaen i'r mis nesaf.

Rear access road for North Road.

This item on the Agenda has been forwarded to next month.

i) Polyn fflag Neuadd y Dref.

Mae'r eitem hon ar yr Agenda wedi'i hanfon ymlaen i'r mis nesaf.

Guildhall flagpole.

This item on the Agenda has been forwarded to next month.

j) Postyn lamp wedi torri, Cnwc y Dintir.

Mae Sonia Iqbal, Triniwr Hawliadau Eiddo Modur, Tîm Datrys Hawliadau Cyfreithiol y Grŵp, Grŵp y Post Brenhinol wedi derbyn lluniau a thystiolaeth fideo o'r ddamwain ac wedi gofyn i'r cyngor ddarparu dau ddyfynbris ar gyfer atgyweiriadau. Nid yw SSE bellach yn gwneud y gwaith hwn ond yn defnyddio gwmni o'r enw Enervo i wneud y gwaith ar eu rhan. Mae'r Clerc wedi anfon cais am ddyfynbris i wneud y gwaith, ond nid yw'n gallu canfod cwmni arall a fyddai am gwblhau'r prosiect. Cytunodd y Cyng Richard Davies i ddod o hyd i'r dyfynbrisiau ar ran y Clerc.

Broken lamppost, Cnwc y Dintir.

Sonia Iqbal, Motor Property Claims Handler, Group Legal Claims Resolution Team, Royal Mail Group has received the pictures and video evidence of the accident and has requested that the council provide two quotations for repairs. SSE no longer do this work but source a company called Enervo to do the work on their behalf. The Clerk has forwarded a request for a quote to carry out the work, but is unable to identify another company who would want to complete the project. Cllr Richard Davies agreed to source the quotes on behalf of the Clerk.

k) Dathliadau 80 D-Day.

Am 9.00yb ar ddydd Iau 6 Mehefin bydd baner yn cael ei chodi yng nghwrt Castell Aberteifi i nodi digwyddiad cenedlaethol dathliadau 80 mlynedd D-Day. Bydd y Parch Alan Kent yn cynnal gwasanaeth byr iawn a bydd y Maer yn annerch y mynychwyr yng Ngerddi Brioude. Am 2.00yp ar ddydd Sul 9 Mehefin bydd baner yn cael ei chodi yn y Clwb Bowlio ac yna gêm fowlio sy'n agored i bawb.

D-Day 80 Celebrations.

At 9.00am on Thursday 6 June a flag will be raised in the courtyard of Cardigan Castle to mark the nationwide event of the 80 years D-Day celebrations. Rev Alan Kent will conduct a very short service and the Mayor will address the attendees in the Brioude Gardens. At 2.00pm on Sunday 9 June a flag will be raised in the Bowling Club followed by a fun bowling match open to all.

l) Adeilad Tafarn Y Castell – mater diogelwch oherwydd wal yn dadfeilio.

Penderfynwyd gofyn i'r perchnogion pa gynllun oedd ganddynt ar gyfer yr adeilad a'r amserlen yn fras ar gyfer y gwaith angenrheidiol.

Castle Inn building – safety issue due to crumbling wall.

It was resolved to ask the owners what plan they had for the building and the approximate timeline for the necessary works.

m) Amserlen ar gyfer y gwaith CNC ar yr afon.

Cafwyd diweddariad ar Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Llanw Aberteifi gan y Cyngorydd Clive Davies, ar ôl trafodaeth ag arweinydd y prosiect o CNC. Mae cam dylunio amlinellol ar gyfer y prosiect wedi'i gwblhau. Mae'r aliniad a ffefrir ar gyfer yr amddiffyniad arfaethedig yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd yn ystod y digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd yng Nghastell Aberteifi a chyfarfod ar-lein dilynol gyda swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion. Fel rhan o'r cam dylunio amlinellol, mae arolygon ecolegol ar gyfer ystlumod, adar sy'n gaeafu ac ati a nodwedion amgylcheddol ac archeolegol wedi'u cynnal i lywio cam nesaf y prosiect. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda CADW, swyddogion cynllunio Cyngor Sir Ceredigion, swyddogion Ecoleg a swyddogion CNC yn ystod y cyfnod hwn. Yn amodol ar gyllid, bydd CNC cyn bo hir yn ymrwmo i gontract gydag ymgynghorwyr i symud y cynllun ymlaen i'r cyfnod dylunio manwl. Bydd hyn yn gofyn am ymgynghori pellach gyda rhanddeiliaid allweddol i benderfynu ar ffurf, gorffeniadau, trwyddedau gofynnol, caniatadau ac ati cyn y gellir cyflwyno cais cynllunio. Ar hyn o bryd maent yn rhagweld y bydd y cam dylunio manwl yn cymryd hyd at flwyddyn i'w gwblhau. Unwaith eto, yn amodol ar gyllid a chael caniatâd cynllunio a chaniatâd amgylcheddol, maent yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 2025. Mae'r amserlenni hyn yn rhai dros dro ar hyn o

bryd. Bydd cyfathrebu cyhoeddus pellach i roi diweddariad ar y prosiect yn y misoedd nesaf.

Timeframe for the NRW works on the river.

An update on the Cardigan Tidal Flood Risk Management Scheme, was provided by Cllr Clive Davies, after a discussion with the project lead from NRW. An outline design phase for the project has been completed. The preferred alignment for the proposed defence is based on feedback received during the public engagement event held in Cardigan Castle and subsequent online meeting with officers from Ceredigion County Council. As part of the outline design phase, ecological surveys for bats, overwintering birds etc and environmental and archaeological scoping have been undertaken to inform the next stage of the project. A number of meetings with CADW, Ceredigion County Council planning, Ecology officers and NRW officers have been conducted during this period. Subject to funding, the NRW will shortly be entering into a contract with consultants to advance the scheme onto the detailed design phase. This will require further consultation with key stakeholders to determine form, finishes, required permits, consents etc. before a planning application can be submitted. They currently anticipate that the detailed design stage will take up to a year to complete. Again, subject to funding and gaining planning permission and environmental consents, they envisage construction commencing in 2025. These timelines are provisional at this stage. There will further public communications to provide an update on the project in the coming months.

n) Swydd Wag ar gyfer Brysgyllwr.

Mae llythyr o werthfawrogiad i'w anfon at Mr Wynne Evans, y brysgyllwr sydd wedi ymddeol, am ei wasanaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd cynghorwyr yn trafod rhywun yn ei le yn y cyfarfod nesaf.

Vacancy for a Mace Bearer.

A letter of appreciation is to be sent to the retired Mace Bearer, Mr Wynne Evans, for his services over the last two years. Councillors will discuss a possible replacement at the next meeting.

o) Cyrtiau tenis Aberteifi.

Mae cyfle buddsoddi posibl i roi wyneb newydd ar y cyrtiau tenis a datblygu'r safle drwy arian grant a ddarparwyd gan Gymdeithas Tennis y Lawnt a Llywodraeth y DU wedi'i gyflwyno i'r cyngor. Mae cynghorwyr wedi rhoi'r awdurdod i Tennis Cymru i gostio'r prosiect ac ymchwilio ymhellach cyn adrodd yn ôl i'r cyngor. Bydd cynghorwyr wedyn yn ystyried y cynnig.

Cardigan Tennis courts.

A possible investment opportunity to resurface the tennis courts and develop the site through grant funding provided by the Lawn Tennis Association and the UK Government has been presented to the council. Councillors have given Tennis Wales the authority to cost the project and investigate further before reporting back to the council. Councillors will then consider the proposal.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

- **14 Mai – Sefydlu'r Maer.**
 - **16 -20 Mai - Ymweliad â Brioude. Diolch i Bwyllgorau Gefeillio Brioude a Maer Brioude.**
 - **21 Mai – cyflwyniad GIG Cymru.**
 - **23 Mai - Taith Llysgenhadaeth yr Iseldiroedd i ardal Aberteifi.**
 - **1 Mehefin – Bore Coffi - Mencap Ceredigion.**
 - **2 Mehefin – Casglu Sbwriel yn y Gymuned.**
- Mayors' Diary.
- **14 May - Mayor Making.**

- 16 -20 May - Visit to Brioude. Thanks to the Brioude Twinning Committes and the Mayor of Brioude.
- 21 May – GIG Cymru presentation.
- 23 May - Dutch Embassy trip to the Cardigan area.
- 1 June – Coffee Morning - Mencap Ceredigion.
- 2ⁿJune – Community Litter Pick.

a) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Mae'r twll mawr ar gyffordd mynediad Tesco, a oedd yn ddwfn ac a allai fod wedi achosi difrod i geir, wedi'i lenwi ar ôl i mi adrodd amdano'n ddiweddar.
- Oherwydd y problemau yng nghanol y dref gyda chasgliadau sbwriel ar benwythnosau rwyf wedi gofyn am gyfarfod safle gyda swyddog o CSC. Bydd ein Bachan Deche, y Cynghorydd Richard Davies yn ymuno â ni.
- Llongyfarchiadau i'r Cyng Olwen Davies ar gael ei gwneud yn Faer, a phob lwc am y flwyddyn i ddod. Pleser oedd gweld y seremoni'r sefydlu yn Neuadd y Dref.
- Mae arian ar gyfer siediau a meinciau wedi'u darparu gan Rhiannon Ling, Tai West Wales, ac Emily Edwards, Swyddog Cymorth Cymunedol, a Cardished. Bydd rhain yn cefnogi gweithgareddau a gweithdai ym Mhentop ar gyfer tymor yr haf sydd i ddod.
- Goleuadau traffig Troedyrhiw - Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal nifer o arolygon tir ar y tir ger y rhan o'r briffordd a fethwyd ar yr A478. Bydd y tîm ar y safle yn drilio nifer o dyllau turio i'r ddaear i gasglu samplau i'w dadansoddi ac i fonitro lefelau dŵr daear. Pwrpas yr arolwg yw cael dealltwriaeth o'r amodau daearegol a dŵr daear i gynorthwyo gyda'n dyluniad yn y lleoliad hwn.
- Mae tir rhwng Maeshenffordd a Brynhafod wedi tyfu'n wyllt eto ac wedi arwain at ddifrodi ffens un tŷ. Roedd Barcud yn gyflym i ateb fy ymholiadau ac wedi anfon rhywun allan ac wedi addo torri'r tir yn ôl.
- Cwrddon ni â rhai cynrychiolwyr oedd yn ymweld ag Aberteifi a chawsom daith dywys hyfryd o amgylch y Castell. Roedd y cynrychiolwyr ar ymweliad o Lundain, Ffrainc, Gwlad Pwyl, yr Almaen a'r Iseldiroedd.
- Cadeiriais fy nghyfarfod trosolwg a chraffu adnoddau corfforaethol cyntaf ar 16 Mai gan nad oedd y cadeirydd ar y pryd yn gallu bod yn bresennol.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- The large pothole at the Tesco entrance junction, which was deep and could have caused damage to cars, has been filled after I reported it recently.
- Due to the problems in the town centre with rubbish collections at weekends I have requested a site meeting with an officer from CSC. Our handy man, Councillor Richard Davies will join us.
- Congratulations to Cllr Olwen Davies on being made Mayor and good luck for the coming year. It was a pleasure to see the installation ceremony at the Town Hall.
- Funding for sheds and benches have been provided by Rhiannon Ling, Wales and West Housing, and Emily Edwards, Community Support Officer and the Cardished. These will be used for activities and workshops at Pentop for the coming summer term.
- Troedyrhiw traffic lights - The Council is currently carrying out a number of land surveys on the land near the failed section of the highway on the A478. The team on site will drill a number of boreholes into the ground to collect samples for analysis and to monitor ground water levels. The purpose of the survey is to gain an understanding of the geological and groundwater conditions to assist with our design in this location.

- Land between Maeshenffordd and Brynhafod has grown wild again and has led to damage to the fence of one house. Barcud was quick to answer my queries and sent someone out and promised to cut the land back.
- We met some representatives who were visiting Cardigan and we had a lovely guided tour around the Castle. The representatives were visiting from London, France, Poland, Germany and the Netherlands.
- I chaired my first corporate resource review and scrutiny meeting on 16 May as the chairman at the time was unable to attend.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan.

Dim adroddiad wedi ei gyflwyno.

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward.

No report submitted.

b) Adroddiad y Bachan Deche / Handy person's Report.

I. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**

Mae rhannau o'r offer ymarfer stepiwr wedi'i dynnu i'w atgyweirio.

The workings of the stepper exercising equipment has been removed for repair.

II. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

Dim i'w adrodd / Nothing to report.

III. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**

Dim i'w adrodd / Nothing to report.

IV. **Maes Chwarae Pentop / Pentop Play Area.**

Dim i'w adrodd / Nothing to report.

V. **Cyffredinol / General**

Mae mwyafrif y tybiau wedi'u plannu a'u gosod yng nghanol y dref. Mae yna 3 pot mawr yr hoffwn eu hadleoli i safleoedd gwell, lle byddant yn elwa ar fwy o olau a bod yn fwy gweladwy. Wal siop y castell, y tu allan i Manuccis a Bathhouse Road. Mae cromfachau basgedi crog newydd wedi eu harchebu ar gyfer Neuadd y Dref.

Cytunodd y cynghorwyr i'r aildrefnu tybiau.

The majority of tubs have been planted and placed in the town centre. There are 3 large pots that I would like to relocate to better positions, where they will benefit from more light and be more visible. The castle shop wall, outside Manuccis and Bathhouse Road.

New hanging baskets brackets have been ordered for the Guildhall.

Councillors agreed to the rearranging of tubs.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd.

Dyfyniadau ar gyfer dolenni/cadwyn Faerol newydd.

Swydd Wag ar gyfer Brysgyllwr.

Polyn fflag Neuadd y Dref.

Items for the next Agenda

Rear access road for North Road.

Quotes for links/new Mayoral chain.

Vacancy for a Mace Bearer.

Guildhall flagpole.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.50yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.50pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date